



Ysgol Tyle'r Ynn Polisi'r Cwricwlwm

Cyflwyniad

Y cwricwlwm yw'r gweithgareddau a drefnwn er mwyn hybu dysgu ac annog datblygiad personol y plant. Mae'n cynnwys pethau eraill yn ychwanegol at ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef y gweithgareddau allgyrsiol a drefnir er mwyn cyfoethogi profiad y plant. Mae'n cynnwys y "cwricwlwm cudd" hefyd, sef yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu o ddisgwyliadau eraill ohonynt ac o'r ffordd y cant eu trin. Ein hamcan yn Tyle'r Ynn yw addysgu plant fel eu bod yn tyfu'n oedolion cadarnhaol a chyfrifol, a fydd yn gallu gweithio a chyd-weithio gydag eraill, ac a fydd yn gallu cyrraedd eu llawn botensial am eu bod wedi derbyn y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

Yn Ysgol Tyle'r Ynn 'rydyn ni'n parchu'r iaith Gymraeg fel cyfrwng dysgu ac yn anelu at sicrhau dwyieithrwydd gweithredol i bob disgybl- gweler y polisi iaith am fanylion pellach.

Gwerthoedd

Mae cwricwlwm Ysgol Tyle'r Ynn wedi ei selio ar y gwerthoedd hynny sy'n bwysig i ni. Y cwricwlwm yw'r modd yr ydym yn llwyddo yn y bwriad o addysgu'r plant mewn gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth fel eu bod yn gallu dilyn bywydau gwerthfawr.

Dyma'r prif werthoedd sy'n sail i'r cwricwlwm:

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod pob plentyn yn unigryw, ac mae ein cwricwlwm yn hybu parch at farn plant unigol, ynghyd a pharch at ddiwylliannau eraill. Rydyn ni'n credu bod datblygiad ysbrydol a moesol pob person yn bwysig, ynghyd a'u tyfiant corfforol a deallusol. Rydyn ni'n gweld gwerth ym mhob aelod o'r gymuned. Mae'r cwricwlwm yn cael ei drefnu fel bod cydweithrediad a dealltwriaeth rhwng aelodau'r gymuned yn cael eu hybu. Rydyn ni'n gwerthfawrogi hawliau pawb yn y gymdeithas.

Rydyn ni'n parchu'r plant fel unigolion, ac yn eu trin yn deg ac yn onest. Rydyn ni'n anelu at alluogi pawb i lwyddo, ac rydyn ni'n darparu cyfle cyfartal i bob plentyn.

Rydyn ni'n parchu'n hamgylchfyd, a thrwy gyfrwng y cwricwlwm rydyn ni'n ceisio dysgu parch at y byd. Rydyn ni'n sôn am bwysigrwydd gofalu am y byd er mwyn cenedlaethau sydd eto i ddod.

Nod ac amcanion

Nod y cwricwlwm yw:

- Galluogi'r plant i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu gallu
- Hybu agwedd iach tuag at ddysgu, fel bod plant yn mwynhau dod i'r ysgol, er mwyn creu sylfaen gadarn tuag at ddysgu oes- gyfan
- Addysgu'r sgiliau sylfaenol o lythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth
- Galluogi'r plant i fod yn greadigol ac i ddatblygu ffordd o feddwl drostynt eu hunain
- Addysgu'r plant am y byd sy'n datblygu o'u hamgylch, yn cynnwys y ffordd y mae eu hamgylchfyd a'u cymdeithas wedi newid ar hyd y blynyddoedd
- Helpu'r plant i ddeall treftadaeth ddiwylliannol ein gwlad
- Galluogi'r plant i fod yn ddinasyddion cadarnhaol yn ein cymdeithas
- Cyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'r Maes Llafur Lleol mewn Addysg Grefyddol
- Dysgu plant i fod yn ymwybodol o'u datblygiad ysbrydol ac i wahaniaethu rhwng da a drwg
- Cynorthwyo plant i ddeall pwysigrwydd gonestrwydd a thegwch, fel eu bod yn tyfu i wybod bod cyfle i bawb yn bwysig
- galluogi'r plant i barchu eu hunain, er mwyn gallu byw a chyd- weithio gydag eraill

Trefnu a Chynllunio

Rydym yn cynllunio ein cwricwlwm ar draws dau gyfnod, sef y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ers mabwysiadu Cwricwlwm y 'Conglfeini' ar ddechrau tymor yr haf 2012, mae athrawon dosbarthiadau Blwyddyn 1 – 6 yn cynllunio fesul hanner tymor a dosbarthiadau'r Derbyn a'r Meithrin yn dilyn thema tymor cyfan. Bwriad 'Conglfeini' yw darparu profiad dysgu sy'n hwyl ac yn atyniadol i ddysgwyr, ac sy'n cynnig dynesiad ymholi ffres a chyffrous i ddysgwyr ifanc. Mae cynlluniau bob dosbarth yn amlinellu dilyniant ar draws yr ysgol ar gyfer ystod pob pwnc neu faes unigol, y sgiliau pynciol neu faes, a'r medrau allweddol a welir ar draws y cwricwlwm.

Ein cynlluniau tymor byr yw'r rheiny y mae'n hathrawon yn eu llunio bob pythefnos. Rydym yn defnyddio'r rhain i ddisgrifio'r amcanion dysgu, a nodi'r adnoddau a'r gweithgareddau y byddwn yn eu defnyddio yn y gwersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, rydym yn cynllunio'r cwricwlwm yn ofalus, er mwyn iddo gwmpasu holl agweddau'r Canlyniadau Dymunol a'r nodau dysgu cynnar yn gydlynol ac yn gyflawn, ac mae dilyniant cynlluniedig ym mhob maes yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a phrofiadau'r plant Mae ein hysgol yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor bod plant bach yn dysgu drwy chwarae, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig wedi'u cynllunio'n dda.

Ar gyfer CA2, rydym yn addysgu Cymraeg, Saesneg a Mathemateg ar wahân, er ceisiwn gynnwys elfennau o waith thematig yn y tri phwnc.

Rydym yn ymwybodol iawn bod angen cefnogaeth rhieni ac athrawon fel ei gilydd ar blant er

mwyn datblygu'n dda yn yr ysgol. Rydym yn ymdrechu i adeiladu cysylltiadau cadarnhaol â rhieni pob plentyn drwy eu hysbysu am yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu, a sut mae pob plentyn yn datblygu.

Y Cwricwlwm a Chynhwysiad

Mae cwricwlwm ein hysgol wedi ei greu er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn. Os credwn fod angen addasu'r cwricwlwm i gwrdd ag anghenion arbennig plentyn unigol, yna gwnawn hynny ar ôl ymgynghori gyda rhieni'r plentyn ac arbenigwyr eraill pe bai'r angen.

Os oes anghenion arbennig gan blentyn, mae ein hysgol yn ceisio ei gorau i gwrdd â'r anghenion hynny. Rydyn ni'n cyflawni'r gofynion a osodir yn y Côd Ymddygiad AAA wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion arbennig. Os yw plentyn yn dangos arwyddion o fod ag anghenion arbennig, bydd yr athro/awes yn cynnal asesiad. Fel arfer bydd yr athro/awes yn gallu darparu adnoddau a chyfleoedd addysgu er mwyn cwrdd â'r anghenion o fewn trefniadaeth arferol dosbarth. Os yw angen y plentyn yn fwy dwys, rydyn ni'n ystyried a oes angen datganiad o anghenion arbennig ar y plentyn, a gwawn hyn mewn ymgynghoriad ag asiantaethau allanol perthnasol. Rydyn ni bob amser yn darparu adnoddau a chymorth ychwanegol ar gyfer plentyn ag anghenion dysgu arbennig.

Mae'r ysgol yn darparu Cynllun Addysg Unigol (CAU) i bob plentyn sydd ar y gofrestr anghenion arbennig. Mae hwn yn disgrifio natur yr angen arbennig, ac yn amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu mynd i'r afael â hynny. Mae'r CAU hefyd yn pennu'r targedau ar gyfer gwelliant, fel y gallwn adolygu a monitro cynnydd pob plentyn yn rheolaidd. Ein nod yw diwallu anghenion pob grŵp o blant yn ein hysgol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anableded ddiwygiedig a ddaeth i rym ym Medi 2002. Cyflawnir pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r plant hyn dan anfantais sylweddol o'u cymharu â phlant eraill. Addasir y dysgu a'r addysgu yn briodol ar gyfer plant ag anabledau. Er enghraifft, mae'n bosib y rhoddir mwy o amser iddynt i gyflawni rhai gweithgareddau, neu efallai yr addasir y deunyddiau addysgu.

Rydym yn cydnabod fod nifer o'n disgyblion yn blant mwy abl a thalentog (MATH). Darperir ar eu cyfer mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys tasgau gwahaniaethol, grwpiau gallu, gweithgareddau allanol. Os oes disgybl yn Mwyaf Abl a Thalentog bydd yr ysgol yn darparu Cynllun Addysg Unigol (CAU) er mwyn cwrdd â'u hanghenion ychwanegol.

Gweler polisiau ADY a MATH yr ysgol am fwy o wybodaeth.

Sgiliau Allweddol

Nodir y sgiliau canlynol fel "sgiliau allweddol"

- Cyfathrebu
- Cymhwyso rhif
- Technoleg Gwybodaeth
- Sgiliau Meddwl

Wrth gynllunio'r cwricwlwm, rydym yn pwysleisio'r sgiliau hyn, er mwyn nodi a monitro cynnydd plant ym mhob un o'r meysydd hyn.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Gweler polisiau'r ysgol.

Rôl yr Arweinydd Pwnc

Mae aelodau staff yn gyfrifol am gydlyn y'r pynciau craidd, megis Llythrennedd Cymraeg a Saesneg, Rhifedd a Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymhwysedd Digidol ac Addysg Grefyddol.

Maent yn darparu arweiniad strategol a chyfeiriad ar gyfer y pwnc/agwedd, ac yn cynghori a chefnogi cydweithwyr ar faterion sy'n ymwneud â'r pwnc/agwedd.

Monitro ac adolygu

Mae'r is-bwyllgor Cwricwlwm yn gyfrifol am fonitro'r ffordd y mae cwricwlwm yr ysgol yn cael ei weithredu. Mae llywodraethwr penodol wedi'i ddynodi ar gyfer ADY, sy'n cysylltu â'r Cydlynnydd ADY ac yn monitro'r ffordd mae'r ysgol yn mynd I'r afael ag anghenion arbennig.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am drefnu'r cwricwlwm o ddydd I ddydd, ac hi sydd yn monitro'r cynlluniau er mwyn sicrhau bod holl ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'r Maes Llafur Addysg Grefyddol wedi'u chyflawni a bod gan yr holl wersi amcanion dysgu priodol.

Chwefror 2017